GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru | Public Health Wales

# Canllawiau ar gyfer Awdurdodau Cynllunio yng Nghymru:

## Beth i'w ystyried wrth gynghori ymgeiswyr ar ofynion Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (AEI) ar gyfer datblygiad











Medi 2026

# Canllawiau ar gyfer Awdurdodau Cynllunio yng Nghymru:

## Beth i'w ystyried wrth gynghori ymgeiswyr ar ofynion Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (AEI) ar gyfer datblygiad


### Awduron

Cheryl Williams, Rowena Ekermawi, Liz Green



### Cydnabyddiaethau

Hoffai'r awduron ddiolch i bawb a gyfrannodd at y canllawiau ac a roddodd adborth arnynt.

Adam Provoost, Cymunedau, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Jack Dangerfield, Cymunedau, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Louis Pannell, Cymunedau, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Stuart Williams, Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd, Cyngor Caerdydd

Ruth Henderson, Adran Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas, Cyngor Abertawe

Owain Enoch, Adran Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas, Cyngor Abertawe

Stephen Thomas, Adran Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas, Cyngor Abertawe

Andrew Wallace, Cynllunio, Cyngor Bro Morgannwg

Michael Chang, Gwasanaethau Eiddo'r GIG Cyf

Dr Sumina Azam, Iechyd Cyhoeddus Cymru

**ISBN 978-1-83766-952-3**


© 2026 Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Gellir atgynhyrchu'r deunydd a gynhwysir yn y ddogfen hon o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored (OGL) www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/ version/3/ ar yr amod y caiff ei wneud yn gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Dylid datgan cydnabyddiaeth i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae hawlfraint y trefniant, y dyluniad a'r cynllun yn eiddo i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

# Cynnwys


Cyflwyniad 5

1. Pwrpas y canllawiau hyn 6

2. Pam mae Asesiadau o’r Effaith ar Iechyd yn Bwysig mewn Cynllunio a Datblygu 7

3. Mathau o Asesiadau o’r Effaith ar Iechyd (AEIau) 11

4. Rôl yr Awdurdod Cynllunio 12

5. Gofynion polisi Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) 14

6. AEI ac Asesiad o’r Effaith Amgylcheddol (AEA) 15

7. Cynghori ymgeiswyr ar y Broses AEI 16

8. Sefydlu’r llinell sylfaen 19

9. Cyfranogiad rhanddeiliaid 22

10. Pwyntiau allweddol ar gyfer ymgeiswyr sy’n ymgymryd ag AEIau 23

11. Adolygu AEIau a gyflwynwyd 24

12. Adnoddau AEI defnyddiol 25

13. Crynodeb 26

14. Dolenni defnyddiol pellach 27

15. Cyfeiriadau 28

16. Atodiad 1: templed sgrinio 29

17. Atodiad 2: templed cynllun cyfranogiad rhanddeiliaid 38

# Rhestr Termau

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| **Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (AEA)** | Adnodd a ddefnyddir i asesu effeithiau posibl datblygiad ar yr amgylchedd. |
| **Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (AEI)** | Mae Asesiad o'r Effaith ar Iechyd yn golygu asesiad o'r effaith debygol, yn y tymor byr ac yn y tymor hir, o gamau gweithredu neu benderfyniad arfaethedig ar iechyd corfforol a meddyliol pobl Cymru neu rai o bobl Cymru.<br>Mae'n gyfuniad o weithdrefnau, dulliau ac adnoddau y gellir eu defnyddio i fesur polisi, rhaglen neu brosiect o ran ei effeithiau posibl ar iechyd poblogaeth, a dosbarthiad yr effeithiau hynny o fewn y boblogaeth. |
| **Anghydraddoldebau iechyd** | Y gwahaniaethau systematig mewn statws iechyd a llesiant grwpiau gwahanol. Yn y Saesneg, yn aml defnyddir y termau 'health inequalities' a 'health inequities' yn gydgyfnewidiol i olygu'r gwahaniaethau annheg y gellir eu hosgoi mewn iechyd a llesiant. |
| **Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLlau)** | Cynllun sy'n nodi ac yn pennu defnydd tir dros gyfnod penodol o amser, gan wasanaethu fel fframwaith ar gyfer penderfyniadau cynllunio lleol. |
| **Awdurdod Cynllunio** | Mae awdurdodau cynllunio yn llunio Cynlluniau Datblygu Lleol ac mae ganddynt gyfrifoldeb am roi'r system gynllunio leol ar waith, gwneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio a sicrhau bod datblygiad yn unol â pholisi lleol. |
| **Asesiad o anghenion y boblogaeth (AAP)** | Gwerthusiad ffurfiol a gynhelir gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus o anghenion gofal a chymorth y boblogaeth leol ac er mwyn ystyried lefel y gwasanaethau sydd eu hangen i ddiwallu'r angen. |
| **Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus** | Mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn fyrddau statudol sy'n gyfrifol am asesu a mynd i'r afael ag anghenion llesiant y boblogaeth o fewn un neu fwy o ardaloedd awdurdod lleol. Mae'r aelodau'n cynnwys awdurdodau lleol, byrddau iechyd a chyrff cyhoeddus eraill. |
| **Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol** | Corff cydweithredol sy'n cynnwys byrddau iechyd, awdurdodau lleol a'r trydydd sector, er mwyn gwella'r ffordd mae gwasanaethau iechyd a gofal yn cael eu darparu i ddiwallu anghenion cymunedol mewn rhanbarth. |
| **Cynllunio Gofodol** | Rheoli a dyrannu lle ac adnoddau, drwy greu cynllun a all fod ar lefel genedlaethol, ranbarthol neu leol. |
| **Canllawiau Cynllunio Atodol** | Mae Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) yn cefnogi cynlluniau datblygu lleol drwy ddarparu cyngor cynllunio manwl ar amrywiaeth o bynciau penodol, ac ehangu ar bolisïau Cynllun Datblygu Lleol. |
| **Datblygu cynaliadwy** | Proses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, ac egwyddor sylfaenol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. |
| **Asesiadau Llesiant a Chynlluniau Llesiant** | Mae'r rhain yn cael eu cynnal gan Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru. Mae asesiadau llesiant yn darparu dadansoddiad o gyflwr llesiant mewn cymunedau ac ardaloedd. Mae canfyddiadau'n dylanwadu ar yr amcanion a nodir mewn cynlluniau llesiant lleol. |
| **Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru (UGAEIC)** | Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru. |

# Cyflwyniad

**Mae penderfyniadau cynllunio yn llunio’r amgylcheddau lle mae mae pobl yn byw, yn gweithio ac yn creu cysylltiadau, ac wrth wneud hynny maent yn chwarae rhan sylfaenol wrth bennu iechyd a llesiant. Ledled Cymru, mae awdurdodau cynllunio mewn sefyllfa unigryw i ddylanwadu ar y canlyniadau hyn, gan sicrhau bod datblygiadau’n cyfrannu at gymunedau iachach, mwy cyfartal a mwy gwydn.**

Datblygwyd y canllawiau hyn i gefnogi awdurdodau cynllunio i wreiddio Asesiad o’r Effaith ar Iechyd (AEI) yn y broses gynllunio, gan ddarparu fframwaith clir ac ymarferol ar gyfer cynghori ymgeiswyr ynghylch pryd a sut y dylid cynnal AEIau. Drwy hyrwyddo dull systematig, sy’n seiliedig ar dystiolaeth ac sy’n canolbwyntio ar bobl, mae AEIau yn golygu bod modd nodi’n gynnar cyfleoedd cadarnhaol a chanlyniadau anfwriadol posibl datblygiad, gan helpu i lunio cynigion sy’n gwella llesiant, yn lleihau anghydraddoldebau iechyd, ac yn cyd-fynd ag ymrwymiadau statudol a pholisi Cymru i ddatblygu cynaliadwy a llesiant cenedlaethau’r dyfodol.

Mae’r canllaw hwn yn hybu dull cymesur, sy’n cael ei arwain gan gynllun, wrth fynd ati i gynnal AEIau gyda phwyslais ar asesu cynnar, tegwch ac integreiddio asesiadau i’r broses o wneud penderfyniadau o fewn system gynllunio Cymru.



# 1 Pwrpas y Canllawiau hyn

**Mae’r canllawiau hyn yn cefnogi awdurdodau cynllunio yng Nghymru yn eu rôl wrth gynghori ac arwain ymgeiswyr ar ddefnyddio Asesiad o’r Effaith ar Iechyd (AEI) ar gyfer datblygiad yn y system gynllunio.**

Mae’n darparu fframwaith i awdurdodau ddatblygu eu dull eu hunain ar gyfer ymgorffori AEI o fewn y system gynllunio, a’i deilwra i’r cyd-destun a gofynion polisi lleol. Mae’r canllawiau hyn wedi’u datblygu’n benodol i’w defnyddio mewn cynllunio a datblygu, fel ychwanegiad at ganllawiau AEI sydd ar gael gan **Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru (UGAEIC)**, Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Yng Nghymru, mae’r gofyniad i ystyried iechyd a llesiant yn cael ei ategu gan fframwaith deddfwriaethol a pholisi cryf, gan gynnwys **Deddf Cynllunio (Cymru) 2015**, **Polisi Cynllunio Cymru**, a **Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015**, ochr yn ochr â **Rheoliadau Asesiadau o’r Effaith ar Iechyd (Cymru) 2025**.

Bydd y Rheoliadau Asesiadau o’r Effaith ar Iechyd yn dod i rym o fis Ebrill 2027*, a **bydd dyletswydd ar bob corff cyhoeddus yng Nghymru i gynnal AEIau pan fyddant yn gwneud penderfyniadau o natur strategol ynghylch sut maent yn arfer eu swyddogaethau**. Gyda’i gilydd, mae’r fframweithiau hyn yn sefydlu disgwyliad clir y dylai penderfyniadau cynllunio gyfrannu at wella iechyd, lleihau anghydraddoldebau, a chreu cymunedau cynaliadwy a gwydn.

Mae’r wybodaeth yn y canllawiau hyn wedi’i bwriadu ar gyfer y rhai sy’n ymwneud â llunio cynlluniau a rheoli datblygu ledled Cymru, a gallai awdurdodau cynllunio ddefnyddio’r wybodaeth i lunio AEI lleol ar gyfer templed datblygu, canllaw neu Ganllawiau Cynllunio Atodol fel rhan o broses y system gynllunio.
Y gynulleidfa darged yn bennaf yw:

- ✓ **Swyddogion awdurdodau lleol gan gynnwys y rhai sy’n gweithio ym maes polisi cynllunio a rheoli datblygu**
- ✓ **Byrddau Iechyd a thimau iechyd y cyhoedd**
- ✓ **Aelodau Etholedig yr Awdurdod Lleol**
- ✓ **Ymgynghorwyr Cynllunio**
- ✓ **Datblygwyr**

* Pan ddaw’r Rheoliadau i rym ar 06 Ebrill 2027, cyfrifoldeb cyrff cyhoeddus yn y pen draw fydd cydymffurfio â nhw, a dylent felly droi at y Rheoliadau eu hunain pan fyddant yn asesu cydymffurfiaeth.

# 2 Pam mae AEIau yn bwysig mewn Cynllunio a Datblygu

## Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi bod 'Asesiad o'r Effaith ar Iechyd yn help gwerthfawr i baratoi cynlluniau'.

Mae Siarter Creu Lleoedd Cymru (2020) hefyd yn cynnwys iechyd o fewn egwyddor 'Pobl a Chymuned' gan nodi y dylid ystyried anghenion, dyheadau, iechyd a llesiant pob unigolyn ar ddechrau cynigion datblygu. Mae AEI yn adnodd gwerthfawr i'w ddefnyddio wrth gynllunio datblygiadau oherwydd ei fod yn golygu bod modd ystyried effaith bosibl datblygiad ar amrywiaeth eang o benderfynyddion iechyd gan gynnwys tai, yr amgylchedd a rhwydweithiau cymdeithasol, ac mae hefyd yn ystyried yr effaith bosibl ar anghydraddoldebau. Diffinnir anghydraddoldebau iechyd fel y gwahaniaethau systematig yn statws iechyd a llesiant gwahanol grwpiau. (McCartney ac eraill, 2019).

**Mae AEI yn fwyaf buddiol mewn perthynas â datblygiad pan gaiff ei gynnal yn ystod y cyfnod dylunio, pan fydd cynnig yn glir, ond gellir llunio'r dyluniad yn unol ag argymhellion yr AEI. Felly, argymhellir cynnal AEIau yn y cyfnod cyn-ymgeisio, h.y. yn ystod y cyfnod dylunio a chyn cyflwyno'r cais cynllunio.**

Mae AEI yn broses systematig a chymesur a ddefnyddir i ystyried sut y gallai datblygiad arfaethedig effeithio ar iechyd poblogaeth a dosbarthiad posibl yr effeithiau hynny ar draws grwpiau poblogaeth. O fewn y maes cynllunio, mae defnyddio AEIau yn helpu i sicrhau bod cymdogaethau wedi'u cynllunio i gefnogi canlyniadau iechyd gwell, gan fynd i'r afael â ffactorau fel eu haddasrwydd i gerddwyr, mynediad at fannau gwyrdd (a glas), ansawdd aer, yr amgylchedd sŵn, mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus, mynediad at gyflogaeth ac addysg, ac agosrwydd at wasanaethau (a'r ddarpariaeth gwasanaethau). Mae'r ffactorau hyn yn enghreifftiau o'r hyn a elwir yn eang yn 'benderfynyddion iechyd ehangach' (neu benderfynyddion cymdeithasol iechyd) sy'n mynd y tu hwnt i eneteg ac ymddygiadau unigol fel ysmygu neu weithgarwch corfforol, i ystyried y cyd-destun cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ehangach (Ffigur 1).

**Ffigur 1: Penderfynyddion iechyd a llesiant (Barton a Grant, 2006)**



## Mae AEIau yn cefnogi datblygiad cymunedau iach, ffyniannus a chyfartal, drwy wneud y canlynol:

- darparu dull sy'n canolbwyntio ar bobl wrth asesu unrhyw effeithiau iechyd (cadarnhaol a negyddol anfwriadol) y gallai datblygiadau eu hachosi.
- darparu mecanwaith ar gyfer nodi argymhellion ar gyfer sut gellir gwella neu liniaru'r effeithiau hyn.
- cefnogi ymgeiswyr i ddangos bod yr effeithiau posibl ar wahanol grwpiau poblogaeth wedi cael eu hystyried yn ystod y broses o baratoi cynigion datblygu.
- helpu i fynd i'r afael â rhai o'r heriau iechyd mwyaf dybryd sy'n wynebu Cymru megis anweithgarwch corfforol, gordewdra, afiechyd meddwl ac amddifadedd.





# Fframwaith AEI i'w ystyried mewn datblygiad

Dylai ymgeiswyr ystyried grwpiau poblogaeth mewn perthynas â sut gallai datblygiad effeithio arnynt, mewn ffyrdd cadarnhaol a negyddol anfwriadol. Mae'r grwpiau yn Nhabl 1 yn cynnig man cychwyn i'w ystyried. Nid rhestr gynhwysfawr yw hon a dylid annog ymgeiswyr i ddefnyddio data a gwybodaeth am y boblogaeth leol i nodi'r grwpiau poblogaeth penodol y gallai datblygiad effeithio arnynt.

## Tabl 1: Grwpiau poblogaeth y gallai datblygiad effeithio arnynt

### Grwpiau sy'n gysylltiedig â rhyw/rhywedd

- Benywod
- Gwrywod
- Trawsryweddol
- Anneuaidd
- Arall (rhowch fanylion)

### Grwpiau sy'n gysylltiedig ag oedran (gellid nodi ystod oedran ar gyfer ystyriaethau arbennig)

- Blynyddoedd cynnar (gan gynnwys beichiogrwydd a babanod hyd at 2 oed)
- Plant a phobl ifanc
- Poblogaethau oedolion o oedran gweithio
- Pobl hŷn

### Grwpiau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth / incwm

- Yn economaidd weithgar/anweithgar
- Pobl economaidd anweithgar
- Pobl ar incwm isel
- Pobl ar gontractau dros dro neu gontractau dim oriau
- Pobl nad ydynt yn gallu gweithio oherwydd afiechyd
- Di-waith/heb waith
- Gwirfoddolwyr
- Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEETs)

### Grwpiau sy'n fwy tebygol o wynebu gwahaniaethu neu anfantais gymdeithasol arall

- Gofalwyr
- Lleiafrifoedd ethnig (rhowch fanylion)
- Cyn-droseddwyr
- Sipsiwn, Roma a Theithwyr
- Digartref neu heb gartref sefydlog
- Iaith/diwylliant (rhowch fanylion)
- Teuluoedd un rhiant
- Plant sy'n derbyn gofal neu'r rhai sy'n gadael gofal
- Troseddwyr
- Pobl â chyflyrau iechyd hirdymor
- Pobl â chyflyrau iechyd meddwl
- Pobl ag anableddau/anawsterau corfforol, synhwyraidd neu ddysgu
- Grwpiau ffoaduriaid a cheiswyr lloches
- Grwpiau crefyddol (rhowch fanylion)
- Gweithwyr rhyw
- Grwpiau cyfeiriadedd rhywiol
- Cyn-filwyr/personél milwrol

### Grwpiau a/neu leoliadau daearyddol

- Pobl mewn lleoliadau allweddol: gweithleoedd/ysgolion/ysbytai/cartrefi gofal/carchardai
- Pobl sy'n byw mewn ardaloedd lle ceir dangosyddion economaidd a/neu iechyd gwael
- Pobl sy'n byw mewn ardaloedd trefol neu wledig
- Pobl sy'n byw mewn ardaloedd ynysig neu orboblog
- Pobl nad ydynt yn gallu cael mynediad at wasanaethau a chyfleusterau

**Gellir categoreiddio penderfynyddion iechyd mewn perthynas â datblygiad fel y dangosir yn Nhabl 2** (wedi'i addasu o IEMA, 2022[1] ac UGAEIC[2] ). **Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr,** a dylid annog ymgeiswyr i ystyried a allai unrhyw benderfynyddion iechyd eraill fod yn berthnasol. Gallai'r rhain gynnwys penderfynyddion sy'n gysylltiedig â ffyrdd o fyw, dylanwadau cymdeithasol a chymunedol ar iechyd, amodau byw neu amgylcheddol, amodau economaidd, mynediad at wasanaethau ac ansawdd gwasanaethau, a ffactorau macro-economaidd, amgylcheddol a chynaliadwyedd; y gallai pob un ohonynt effeithio ar iechyd mewn rhyw ffordd.

## Tabl 2: Penderfynyddion ehangach iechyd mewn perthynas â datblygiad

| Categorïau | Penderfynydd ehangach iechyd |
|---|---|
| **Ymddygiadau iechyd / ffordd o fyw** | Gweithgarwch corfforol |
| | Ymddygiad lle cymerir risg e.e. gamblo |
| | Deiet a maeth |
| **Amgylchedd cymdeithasol a chymunedol** | Cydlyniant/cyfranogiad cymdeithasol |
| | Dulliau trafnidiaeth, mynediad, cysylltiadau ac integreiddio |
| | Cysylltedd cymunedol |
| | Hunaniaeth a diwylliant cymunedol |
| | Diogelwch cymunedol a sicrwydd |
| **Llesiant meddyliol** | Y gallu i gymryd rhan mewn bywyd cymunedol ac economaidd |
| | Pryder ac ansicrwydd mewn perthynas ag adeiladu neu ddatblygu |
| **Amodau byw ac amgylcheddol** | Mynediad at natur |
| | Mynediad at fannau agored, hamdden a chwarae |
| | Ansawdd aer |
| | Ansawdd neu argaeledd dŵr |
| | Ansawdd tir |
| | Sŵn a dirgryniad |
| | Ymbelydredd |
| | Ansawdd tai a deiliadaeth |
| | Fforddiadwyedd tai |
| | Llifogydd lleol |
| **Amgylchedd ac amodau economaidd** | Cyflogaeth ac incwm |
| | Cyfleusterau addysg a hyfforddiant |
| **Mynediad at wasanaethau** | Argaeledd gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol |
| | Amgylchedd adeiledig / amwynderau cyhoeddus |
| | Seilwaith cymdeithasol ehangach |
| | Dulliau trafnidiaeth, mynediad, cysylltiadau, cost ac integreiddio |
| **Amodau macro-economaidd ac amgylcheddol** | Newid hinsawdd, gan gynnwys llifogydd a chynhesu |
| | Bioamrywiaeth |
| | Seilwaith ynni a thechnoleg |

[1] IEMA, 2022. EIA guide to effective scoping of human health

[2] Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (AEI): Grwpiau Poblogaeth a Phenderfynyddion Ehangach Iechyd a Llesiant - Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant

# 3 Mathau o Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd (AEIau)

**Mae gwahanol fathau o AEI, yn dibynnu ar ddyfnder a graddfa'r ymchwil a'r sail dystiolaeth a ddefnyddir ar gyfer asesiad.**

**AEI Cyflym (Safonol)** – dyma'r math mwyaf cyffredin o AEI a gall gymryd dyddiau neu wythnosau i'w gwblhau. Fel arfer, mae AEI cyflym yn cynnwys sefydlu grŵp llywio bach a gall gynnwys elfen o gyfraniad rhanddeiliaid. Mae fel arfer yn dibynnu ar ddata sylfaenol sydd eisoes yn bodoli ac adolygiad llenyddiaeth cyfyngedig i nodi effeithiau allweddol ar iechyd ac argymhellion i fynd i'r afael ag effeithiau.

**AEI Cynhwysfawr** – mae'r AEI hwn yn yn fwy dwys o ran adnoddau a gall gymryd mwy o amser i'w gwblhau. Mae'n defnyddio data a thystiolaeth helaeth i archwilio ystod eang o effeithiau ac yn aml mae'n cynnwys elfen o gyfraniad rhanddeiliaid.

**Fel arfer, byddai disgwyl i ymgeiswyr baratoi AEI cyflym fel rhan o'r broses gynllunio (os yw'n ofynnol yn ôl y polisi cynllunio lleol), a gynhelir yn ystod y cam cynnig neu yng nghyfnod cynnar y broses ymgeisio.** Gall sgrinio AEI fod yn briodol ar gyfer datblygiadau nad ydynt yn bodloni'r meini prawf neu'r trothwy a bennir yn y polisi cynllunio (gweler Atodiad 1).



# 4 Rôl yr Awdurdod Cynllunio

## Pan fo AEIau naill ai'n ofyniad polisi ar gyfer datblygiadau penodol ar hyn o bryd neu gallent ddod yn ofyniad mewn polisïau yn y dyfodol, dylai awdurdod cynllunio ystyried y pwyntiau canlynol.

**Gall Iechyd Cyhoeddus Cymru roi canllawiau i awdurdodau cynllunio mewn perthynas â gofynion AEI. Gweler adran 12.**

- **Hybu ymwybyddiaeth gynnar** o ofynion AEI yn unol â pholisi lleol i ymgeiswyr yn y cyfnod cyn-ymgeisio er mwyn hwyluso dealltwriaeth glir o'r broses AEI a sut mae'n bwydo i'r broses o ddatblygu dyluniad. *Os yw'r awdurdod cynllunio wedi datblygu canllawiau lleol, dylid eu darparu i ymgeiswyr.*
- Darparu **disgwyliadau clir** ynghylch pryd a sut mae angen AEI yn unol â pholisi a phrosesau lleol, gan sicrhau bod y gofynion yn gymesur â'r math o ddatblygiad a'i raddfa.
  - **Dylai polisïau'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) ddiffinio'n glir y sbardun neu'r trothwy ar gyfer pryd y bydd angen AEIau ar gyfer datblygiad.** *Cyfeiriwch at Adran 4.1 am fwy o fanylion am drothwyon.* Dylai polisi ddatgan bod angen i AEIau lywio penderfyniadau a'r broses ddylunio.
  - **Dylai canllawiau i ddatblygwyr a gaiff eu llunio gan yr awdurdod cynllunio nodi sut dylid cynnal yr AEI, a dylid disgwyl i ymgeiswyr cynllunio ddangos yn eu cais sut mae'r AEI wedi llywio penderfyniadau a'r broses ddylunio.** Gall Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) chwarae rhan bwysig wrth ddarparu canllawiau manwl i ymgeiswyr ynghylch pryd a sut mae angen AEI. *Cyfeiriwch at Adran 7 am fanylion y broses AEI.*
- **Annog ymgysylltiad cynnar** â rhanddeiliaid allweddol yn unol â gofynion lleol, gan gynnwys byrddau iechyd lleol. *Cyfeiriwch at Adran 8 ar ddisgwyliadau cyfranogiad rhanddeiliaid.*
- Sicrhau bod AEIau yn **cael eu hintegreiddio yn y broses benderfyniadau**, naill ai fel dogfennau annibynnol neu o fewn asesiadau eraill (er enghraifft, Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol, gweler adran 6). Dylai tystiolaeth o sut mae'r AEI wedi dylanwadu ar y broses benderfyniadau fod yn un o ofynion y cais cynllunio. **Gall yr awdurdod cynllunio nodi gofynion mewn Canllawiau Cynllunio Atodol neu ganllaw AEI.** Gallai tystiolaeth fod ar ffurf adroddiad byr (neu atodiad i'r AEI ei hun) sy'n dangos llwybr archwilio clir rhwng yr effeithiau iechyd a nodwyd, yr argymhellion, a'r penderfyniadau dylunio sy'n deillio o hynny. Mae disgrifiad sy'n cysylltu canfyddiadau AEI ag ymatebion dylunio yn fath cryf o dystiolaeth ac fel arfer mae'n cynnwys:
  - Effaith ar iechyd neu benderfynydd iechyd a nodwyd
  - Grŵp/grwpiau poblogaeth yr effeithir arnynt
  - Arwyddocâd yr effaith ar iechyd
  - Argymhelliad i wella effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol

Lle bo modd, dylai awdurdodau cynllunio weithio mewn partneriaeth â Byrddau Iechyd Lleol i adolygu AEIau yn feirniadol i wirio eu bod yn mynd i'r afael â **phenderfynyddion iechyd allweddol, grwpiau agored i niwed, ac yn cynnwys mesurau lliniaru a gwella priodol.**

## 4.1 Pryd i Gynghori Ymgeiswyr i Gynnal Asesiad o'r Effaith ar Iechyd

Bydd angen polisi (gweler adran 5) o fewn CDLl sy'n nodi'r angen am AEI ar gyfer mathau a/neu raddfeydd penodol o ddatblygiad (gweler adran 5). Mae'n bwysig bod yn glir o fewn **polisi CDLl pryd y disgwylir i AEI gael ei gynnal.** Dylai'r awdurdod cynllunio bennu'r sbardunau ar gyfer AEI (math/graddfa'r datblygiad) a dylent fod **yn gymesur ac yn rhesymol**, a chyd-fynd â gofynion yr ardal leol, gyda Chanllawiau Cynllunio Atodol neu ganllawiau AEI lleol yn darparu rhagor o fanylion ar sut i weithredu.

Dylid argymell AEI ar gyfer unrhyw ddatblygiadau sy'n debygol o gael **goblygiadau sylweddol ar iechyd a llesiant.**

Dylai'r broses ar gyfer gosod sbardunau ar gyfer AEIau fod yn seiliedig ar benderfyniad yr awdurdod cynllunio ynghylch arwyddocâd a thebygolrwydd datblygiad yn cael effaith ar iechyd a llesiant, ac ar anghydraddoldebau iechyd[4].

Mae ystyried anghenion a blaenoriaethau iechyd lleol hefyd yn allweddol wrth benderfynu ar bolisi lle mae'n ofynnol cynnal AEI ar gyfer datblygiad. Mae cymunedau ac aneddiadau ledled Cymru yn amrywio o ran maint ac felly bydd effeithiau datblygiad ar iechyd a llesiant yn wahanol. Er enghraifft, gallai effeithiau datblygiad mewn aneddiadau llai fod yn fwy lle mae mynediad at wasanaethau neu drafnidiaeth gyhoeddus yn fwy cyfyngedig, neu gallai'r datblygiad gael effaith gronnus gadarnhaol ar iechyd a llesiant sawl anheddiad gan y gallai hyn olygu mwy o wasanaethau neu fwy o ddarpariaeth o opsiynau trafnidiaeth gyhoeddus. **Felly mae angen i'r sbardunau ar gyfer y gofyniad am AEI ystyried y cyd-destun lleol.**

Rhestrir enghreifftiau o sbardunau isod, ond yr awdurdod cynllunio fydd yn penderfynu ar y mathau o ddatblygiad lle mae angen cynnal Asesiad o'r Effaith ar Iechyd:

- **Datblygiadau tai mawr a chynlluniau defnydd cymysg** fel y'u diffinnir ym mholisïau unigol y CDLl.
- **Datblygiad dros 0.5 hectar neu arwynebedd llawr dros 1,000 metr sgwâr / arwynebedd o 1 hectar**
- Trafnidiaeth, seilwaith (gan gynnwys canolfannau data), iechyd a gofal cymdeithasol, addysg neu brosiectau adfywio.
- Datblygiadau gwastraff, mwynau ac ynni (gan gynnwys ynni adnewyddadwy a storio batris).
- Unrhyw ddatblygiad sydd ag effeithiau posibl ar **ansawdd aer, sŵn, mynediad at wasanaethau, neu gydlyniant cymunedol**.
- **Datblygiad sy'n debygol o achosi effaith gronnus** oherwydd agosrwydd at ddatblygiadau eraill, er enghraifft lle mae nifer o ddatblygiadau tai wedi'u clystyru gyda'i gilydd ond a allai gael eu datblygu mewn gwahanol gamau.
- Datblygiadau mewn ardaloedd sydd â lefelau uchel o amddifadedd (yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru).

Yn achos datblygiadau llai, neu'r rhai nad ydynt yn bodloni sbardunau lleol, gall awdurdodau cynllunio **ystyried gofyn am sgrinio AEI** neu ddatganiad sy'n canolbwyntio ar iechyd yn lle AEI llawn. Dylai sgrinio gwmpasu effeithiau posibl a allai ddeillio o adeiladu, effeithiau posibl y datblygiad ei hun, yr effaith ar breswylwyr a gweithluoedd presennol gerllaw'r safle, yn ogystal â defnyddwyr y datblygiad yn y dyfodol. Dylai'r sgrinio AEI nodi effeithiau cadarnhaol ac anfwriadol negyddol y datblygiad.

Mae **Atodiad A** yn cynnwys enghraifft o asesiad sgrinio y gellid ei ddefnyddio.

[3] Health Impact Assessment in spatial planning - GOV.UK

# 5 Gofynion polisi Cynllun Datblygu Lleol (CDLl)

**Dylid cynnwys y gofyniad a'r sbardun ar gyfer AEI o fewn polisi CDLl ac yn ddelfrydol dylid cefnogi hyn gan Ganllawiau Cynllunio Atodol (CCA) neu Becyn Cymorth neu Ganllawiau AEI.**

Dylai gofyniad polisi ar gyfer AEI nid yn unig ei gwneud yn ofynnol i'r AEI gael ei gynnal ar gyfer datblygiadau penodol ond dylai ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr amlinellu sut mae'r argymhellion wedi llywio penderfyniadau yn y broses ddylunio a'r camau gweithredu a ddilynodd.

Mae Ffigur 2 yn rhoi enghreifftiau o bolisïau AEI mewn cynlluniau lleol yng Nghymru a Lloegr.

### Ffigur 2: Enghreifftiau o ofynion polisi Asesiad o'r Effaith ar Iechyd mewn cynlluniau lleol

**Cynllun Datblygu Lleol Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr 2018-2033**

**Polisi SP8: Iechyd a Llesiant**

(Saesneg yn unig)

Bydd anghydraddoldeb iechyd yn cael ei leihau a bydd dewisiadau a ffyrdd iach o fyw yn cael eu hannog trwy sicrhau bod cynigion datblygu:

... yn cael eu hategu gan Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd lle bo hynny'n briodol (mae'n rhaid i ddatblygiadau mawr gael eu hategu gan AEI, sy'n dangos sut y bydd y cynnig yn arwain at effeithiau buddiol (ac yn osgoi effeithiau andwyol) ar benderfynyddion allweddol iechyd yn y Fwrdeistref Sirol).

**Cynllun Lleol Darlington 2026-2033**

**Polisi DC3: Iechyd a Llesiant**

Bydd datblygiad sy'n cefnogi gwelliannau i iechyd a llesiant yn Darlington yn cael ei gefnogi. Er mwyn cyflawni hyn bydd y cyngor yn:

…ei gwneud yn ofynnol, yn achos datblygiad o 150 neu fwy o gartrefi a phob datblygiad 'mawr' arall nad yw'n ddatblygiad preswyl, i gyflwyno Asesiad Effaith Iechyd fel rhan o'r cais i esbonio sut mae ystyriaethau iechyd wedi llywio'r dyluniad. Dylai asesiadau fod yn gymesur â graddfa'r datblygiad arfaethedig a chael eu cynnal yn unol â chanllawiau cyfredol y llywodraeth.

# 6 AEI ac Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (AEA)

**Gall cynigion datblygu o fathau a graddfeydd penodol fod yn ddarostyngedig i ofynion Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol) (Cymru) 2017.**

**Mae'r Rheoliadau AEA** yn nodi'r meini prawf sgrinio ar gyfer datblygiad o'r fath. Lle penderfynir bod angen Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ar gynnig, rhaid nodi, disgrifio, asesu ac adrodd ar effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol sylweddol tebygol y datblygiad arfaethedig ar iechyd pobl yn y Datganiad Amgylcheddol.

Cyfeirir yn aml at yr asesiad o effeithiau iechyd sydd wedi'i gynnwys mewn Asesiad Amgylcheddol fel 'iechyd mewn Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol' a, **lle mae'n bodloni safonau ansawdd a gofynion polisi Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol, mae fel arfer yn dileu'r angen am adroddiad AEI annibynnol ar wahân** (er y dylid ymgynghori â gofynion polisi cynllunio lleol a **Rheoliadau Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd (Cymru) 2025).**

Pan gynhelir asesiad 'iechyd mewn Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol', mae angen llunio barn ynghylch ystyr 'arwyddocâd' ond yn achos AEI annibynnol, **nid** yw hyn yn ofyniad llym o'r broses. Mae diffiniad y Comisiwn Ewropeaidd o arwyddocâd (*significance*) yn cael ei gymhwyso'n eang yng nghyd-destun iechyd mewn Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (IEMA, 2022):

'The assessment of significance relies on informed experts' judgements about what is important , desirable or acceptable with regards to changes triggered by the project in question.'

Am ragor o ganllawiau ar bennu lefelau arwyddocâd mewn Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol, cyfeiriwch at y canllawiau canlynol: **Institute of Environmental Management and Assessment (IEMA) Guide to Determining Significance for Human Health in Environmental Impact Assessment (2022)**.



# 7 Cynghori ymgeiswyr ar y Broses AEI

Mae pum cam allweddol i unrhyw AEI, y dylid hysbysu ymgeiswyr amdanynt mewn Canllawiau Cynllunio Atodol neu ganllawiau a gaiff eu llunio gan yr awdurdod cynllunio lleol. Darperir canllawiau ar gynnal AEIau gan Iechyd Cyhoeddus Cymru.



## 1 Sgrinio

Mae'r cam hwn yn cynnwys penderfynu a yw cynnig yn cael effeithiau posibl ar iechyd, llesiant a thegwch trwy lens y penderfynyddion ehangach sy'n effeithio ar iechyd, a pha grwpiau poblogaeth y byddai'r datblygiad yn effeithio arnynt o bosibl. **Lle mae polisi cynllunio lleol yn ei gwneud yn ofynnol i gynnal AEI, nid yw'r cam hwn yn ofynnol** a'r cwmpasu yw'r cam cyntaf. Os nad yw hyn yn amlwg, neu os nad yw'r datblygiad o fewn y trothwyon sy'n sbarduno'r polisi, gall sgrinio benderfynu a oes angen AEI.

## 2 Cwmpasu

Mae'r cam hwn yn sefydlu sut bydd yr AEI yn cael ei gynnal ac yn darparu eglurder ynghylch ei bwrpas a'i ffocws. *Mae Adran 8 yn rhoi rhagor o fanylion am sefydlu llinell sylfaen ar gyfer y data i'w casglu.* Mae cwmpasu'n cynnwys ystyried:

- **Amcanion a ffocws** – nodau ac amcanion ar gyfer yr AEI, y penderfynyddion i ganolbwyntio arnynt, elfennau'r cynnig i ganolbwyntio arnynt, a ffiniau daearyddol
- **Proses** – dylid sefydlu graddfa a chymesuredd yr AEI, nodi offer a fframweithiau asesu i'w defnyddio, sefydlu ymgysylltiad rhanddeiliaid yn ôl yr angen, ac ystyried pa dystiolaeth a gesglir (er enghraifft ystadegau iechyd, proffiliau iechyd cymunedol, manylion asedau iechyd a gwasanaethau iechyd). Dylid hefyd ystyried y goblygiadau tebygol ar gyfer seilwaith gwasanaethau gofal iechyd ar y cam hwn mewn ymgynghoriad â Byrddau Iechyd lle bo modd.
- **Rheoli a llywodraethu prosiectau** – amserlenni, pwy fydd yn cwblhau'r AEI (dylid cynnal AEIau drwy broses gydweithredol), adnoddau sydd ar gael a chyfrifoldebau a nodwyd ar gyfer cwblhau ac adolygu.

## 3 Gwerthuso tystiolaeth

Casglu a gwerthuso tystiolaeth gan gynnwys data a gwybodaeth gyd-destunol am natur, maint, tebygolrwydd a dosbarthiad effeithiau posibl y datblygiad ar iechyd, lles a chydraddoldeb. Gellir ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol i gael dealltwriaeth o effeithiau lleol sy'n gysylltiedig ag iechyd. Gall gwybodaeth a 'phrofiad byw' rhanddeiliaid o'r ardal leol a'r boblogaeth fod yn werthfawr o ran tystiolaeth o effeithiau ar y boblogaeth ac wrth gasglu syniadau ar gyfer y datblygiad. Fel arfer, cynhelir gweithdy byr i ymgysylltu â rhanddeiliaid (gweler adran 9).

**Dylid cynhyrchu proffil lleol o anghenion iechyd y boblogaeth, demograffeg, mynegeion amddifadedd ac asesiad o'r ardal leol gan gynnwys gwasanaethau a chyfleusterau.**

**Dylid gwerthuso tystiolaeth i nodi effeithiau cadarnhaol a negyddol posibl a sut y gallent effeithio ar grwpiau poblogaeth penodol.**

Yna gellir dod i gasgliadau ochr yn ochr â nodi argymhellion neu gamau gweithredu i sicrhau bod y datblygiad yn mynd i'r afael â'r effeithiau a nodwyd yn y broses asesu tystiolaeth.

4

## Adrodd ac Argymhellion

Nodi argymhellion a chamau gweithredu i fynd i'r afael ag effeithiau posibl a mynd i'r afael ag unrhyw anghydraddoldebau iechyd a nodwyd. Cyflwyno canfyddiadau mewn adroddiad clir, wedi'i gysylltu â dogfennau cais cynllunio ac argymhellion amlinellol. Dylai ymgeiswyr ddisgrifio sut y bydd unrhyw effeithiau negyddol posibl ar iechyd yn cael eu lliniaru, a sut bydd unrhyw effeithiau cadarnhaol ar iechyd yn cael eu gwella (a phwy sy'n atebol) a sut byddant yn cael eu monitro.

5

## Adolygu ac adfyfyrio, gan gynnwys monitro a gwerthuso

Nod y cam hwn yw nodi sut y defnyddiwyd yr AEI, ac a gafodd ddylanwad ar benderfyniadau a datblygiadau. Dylai'r awdurdod cynllunio sy'n derbyn yr AEI sicrhau ei ansawdd i sicrhau ei fod yn bodloni gofynion yr awdurdod, ac wedi cynnwys popeth a nodwyd yn ystod y camau sgrinio a chwmpasu.



# 8 Sefydlu'r llinell sylfaen

**Yn ystod y cyfnod cwmpasu, mae'n bwysig sefydlu llinell sylfaen iechyd a demograffig berthnasol a chywir sy'n ddigon manwl i ddatblygu dealltwriaeth glir o broffil iechyd a llesiant y boblogaeth leol tra hefyd yn nodi asedau iechyd (megis seilwaith iechyd, ysgolion, darpariaeth chwaraeon cymunedol) ac amodau amgylcheddol fel ansawdd aer, sŵn, a gwyrdd a mannau glas.**

**Ymhlith y ffynonellau allweddol o ddata a thystiolaeth iechyd a chymunedol** mae Asesiadau Llesiant Lleol a Chynlluniau Llesiant, ac Asesiadau o Anghenion y Boblogaeth a gynhyrchir ym mhob ardal o Gymru gan **Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus** a **Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol**.

Os oes unrhyw faterion iechyd neu boblogaeth penodol mewn ardal safle datblygiad, neu ardal ddaearyddol ehangach, y mae angen eu hystyried mewn perthynas â'r AEI, dylid rhoi gwybod i'r ymgeisydd amdanynt yng nghanllawiau'r awdurdod cynllunio. Er enghraifft, efallai bod gan ardal lefelau arbennig o uchel o ordewdra neu ddiabetes ymhlith y boblogaeth neu fod ganddi gyfran uwch o oedolion hŷn o'i gymharu â Chymru yn gyffredinol. Dylid amlinellu i'r ymgeisydd unrhyw grwpiau poblogaeth penodol sy'n agored i niwed a nodwyd yn yr ardal leol y mae angen eu hystyried, er enghraifft grwpiau cymunedol lleiafrifoedd ethnig, cyn-filwyr, sipsiwn a theithwyr, neu bobl sy'n byw mewn ardaloedd o amddifadedd uchel.



Dylid annog ymgeiswyr i adolygu gwybodaeth sydd ar gael yn gyhoeddus i sefydlu llinell sylfaen a nodi'r dystiolaeth o ran sut gall y datblygiad effeithio ar iechyd a llesiant. Gallai hyn gynnwys yr adnoddau canlynol:

- Sylfaen dystiolaeth y Cynllun Datblygu Lleol
- Strategaethau Hirdymor y Bwrdd Iechyd Lleol
- **StatsCymru** – data Llywodraeth Cymru
- **Map Data Cymru** – data'r sector cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys trafnidiaeth a rhwydweithiau teithio llesol
- **Mapiau Iechyd Cymru** – Data Llywodraeth Cymru ar dderbyniadau i ysbytai, nifer yr achosion o ganser, marwolaethau a chyfraddau ffrwythlondeb wedi'u mapio yn ôl ardal Bwrdd Iechyd (Saesneg yn unig)
- **Platfform Datrysiadau Tegwch Iechyd Cymru** – data, tystiolaeth a pholisi ar ecwiti iechyd yng Nghymru
- Cyfrifiad **Swyddfa Ystadegau Gwladol** (ONS) 2021
- **Mapiau Cyfrifiad - Data Cyfrifiad 2021 rhyngweithiol, ONS** - Mapiau Cyfrifiad 2021 Rhyngweithiol
- **Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru** – data sy'n cynnwys canlyniadau iechyd y boblogaeth, nifer yr achosion o glefydau a'r rhaglen mesur plant
- **Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru**
- **GIG Cymru** – practisiau meddygon teulu yn yr ardal leol
- **Ansawdd aer yng Nghymru** – mapiau data Llywodraeth Cymru
- **Extrium** - Gwyliwr ansawdd sŵn ac aer Cymru
- **Data allyriadau Cymru**
- Cyhoeddiadau Iechyd Cyhoeddus Cymru fel **Creu lleoedd a mannau iachach ar gyfer y genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol** (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2018) a **Chynllunio Mannau Iach** (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2025)
- **Egwyddorion Cartrefi Iach** – tystiolaeth ar effeithiau tai ar iechyd a llesiant
- Tystiolaeth a gwybodaeth a gasglwyd drwy waith ymgysylltu â rhanddeiliaid

## 8.1 Sefydlu'r ardal astudio

**Dylai'r ardal astudio a ddefnyddir ar gyfer sefydlu'r llinell sylfaen gael ei diffinio'n glir o fewn yr AEI a bod yn gymesur â graddfa'r datblygiad sy'n cael ei gynnig.** Mae effeithiau ar iechyd yn amrywio'n ofodol yn dibynnu ar natur y penderfynydd iechyd sy'n cael ei asesu a hefyd ar y math o brosiect sy'n cael ei ystyried. Yn gyffredinol, mae tair graddfa o ardal astudio y gallai fod angen eu hystyried, a ddisgrifir yn Nhabl 2Tabl 2.

### Tabl 3: Ardaloedd astudio Asesiad o'r Effaith ar Iechyd

| Ardal astudio | Disgrifiad |
|---|---|
| **Ardal astudio ranbarthol** | Gellir ei defnyddio i sefydlu'r llinell sylfaen iechyd ehangach ar gyfer y boblogaeth o ran penderfynyddion iechyd ehangach sy'n effeithio ar gymunedau ar lefelau mwy rhanbarthol. Er enghraifft, darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol, cyflogaeth ac addysg, darpariaeth a mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus. Fel arfer, diffinnir y raddfa hon o ardal astudio fel ardaloedd awdurdodau lleol, neu ardaloedd byrddau iechyd. |
| **Ardal astudio leol** | Gellir ei defnyddio i sefydlu llinell sylfaen iechyd y boblogaeth o ran penderfynyddion iechyd ehangach sy'n effeithio ar gymunedau ar lefel fwy lleol – er enghraifft, hunaniaeth gymunedol, ansawdd yr amgylchedd lleol (materion fel sŵn, ansawdd aer, amwynder gweledol), cyfranogiad cymdeithasol, a mynediad lleol. Mae graddfa'r ardal astudio fel arfer yn seiliedig ar ardaloedd cynnyrch ehangach haen ganol (MSOAs) ac ardaloedd cynnyrch ehangach haen is (LSOAs), yn dibynnu ar argaeledd data. |
| **Poblogaeth benodol i'r safle** | Mae'r raddfa hon yn berthnasol i'r boblogaeth y mae unrhyw ddatblygiad yn debygol o gael effaith uniongyrchol arni, megis tirfeddianwyr, y cymysgedd o breswylwyr, y rhai sydd eisoes yn defnyddio'r safle a/neu weithwyr yn y dyfodol sy'n dod i'r safle. Gall fod yn her cael data iechyd sy'n benodol i'r boblogaeth hon, felly mae'r llinell sylfaen fel arfer yn dibynnu ar ddata sy'n berthnasol ar raddfa leol neu ranbarthol. |

## 8.2 Asesiad o effaith datblygiad ar fynediad at ofal iechyd

Gall gwaith datblygu sylweddol, yn enwedig ar gyfer tai, arwain at newidiadau yn y galw am seilwaith gwasanaethau cyhoeddus gan gynnwys gwasanaethau gofal iechyd. Dylai Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (AEI) gynnwys asesiad o effaith bosibl datblygiad ar gyfleusterau gofal iechyd, gan gynnwys gwasanaethau gofal sylfaenol. Yna gall yr asesiad hwn lywio dealltwriaeth o'r angen posibl am gyfleusterau newydd neu well er mwyn diwallu anghenion seilwaith y datblygiad.

Wrth asesu effeithiau posibl datblygiad ar wasanaethau gofal iechyd, dylai ymgeiswyr ymgysylltu â byrddau iechyd lleol, a defnyddio methodoleg briodol. Dylai'r asesiad ystyried effeithiau ar ofal sylfaenol, gofal eilaidd, a gwasanaethau iechyd cymunedol, a dangos ble mae angen mesurau lliniaru a sut yr ymgymerir â'r mesurau hynny.

# 9 Cyfranogiad rhanddeiliaid

**Dylid atgoffa ymgeiswyr fod cyfranogiad rhanddeiliaid yn egwyddor graidd o AEIau o ansawdd, gan arwain at asesiadau sy’n adlewyrchu anghenion, gwerthoedd, profiadau ac arbenigedd cymunedol go iawn. Mae hefyd yn cefnogi proses benderfyniadau dryloyw.**

Mae cydweithio a chynnwys yn ffyrdd craidd o weithio o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015.

**Gall rhanddeiliaid fod yn rhan o bob cam o AEI, ond mae’n bwysig yn ystod y cam cwmpasu** lle mae ffiniau’r AEI yn cael eu gosod, gan gynnwys nodi’r grwpiau yr effeithir arnynt, anghenion iechyd y boblogaeth, ac effeithiau tebygol posibl – effeithiau cadarnhaol ac effeithiau negyddol o bosibl neu anfwriadol. Mae Atodiad 2 yn nodi templed cynllun cyfranogiad rhanddeiliaid enghreifftiol y gellir ei addasu i gyd-fynd â graddfa’r prosiect sy’n cael ei asesu.

Ar gyfer prosiectau mawr iawn, dylid cynghori ymgeiswyr i sefydlu grŵp llywio AEI bach yn ystod y cyfnod sgrinio. Dylai hyn fod â chwmpas a chylch gorchwyl clir a, lle bo modd, dylai gynnwys cyfuniad o arbenigwyr iechyd y cyhoedd, swyddogion awdurdodau lleol, cynrychiolwyr cymunedol, sefydliadau’r trydydd sector a’r sawl sy’n gwneud penderfyniadau. Fel arfer, bydd grŵp llywio yn cynnwys 4-6 o bobl ac yn cynnwys pobl a all weithredu fel pont rhwng cymunedau, darparwyr tystiolaeth a’r sawl sy’n gwneud penderfyniadau.

**Dylai unrhyw gyfranogiad fod yn gynhwysol, yn gymesur â graddfa’r AEI, ac yn canolbwyntio ar degwch.** Mae hyn yn golygu mynd y tu hwnt i ymgynghoriad ‘ticio’r blwch’ a sicrhau bod lleisiau poblogaethau difreintiedig neu agored i niwed yn cael eu clywed. Gallai AEI gynnwys gweithdy i randdeiliaid yn ystod y cam asesu tystiolaeth.

Ni ddylai rhanddeiliaid awdurdodau lleol gynnwys cynllunwyr awdurdodau lleol oherwydd nhw sy’n gyfrifol am asesu’r cais cynllunio ac ni ddylid eu rhoi mewn sefyllfa o wrthdaro buddiannau gwirioneddol neu ganfyddedig.

# 10 Pwyntiau allweddol ar gyfer ymgeiswyr sy'n ymgymryd ag AEIau

## Dylid annog ymgeiswyr i wneud y canlynol:

Gweithredu mewn **ffordd gymesur,** dylai dyfnder yr asesiad adlewyrchu graddfa'r effeithiau tebygol ar iechyd. Dylai ymgeiswyr gynnwys yn eu hadroddiad eu cyfiawnhad dros gynnwys neu eithrio effeithiau posibl yn ystod y cam cwmpasu.

Defnyddio **ffynonellau tystiolaeth cadarn** sy'n diwallu anghenion gofynion AEI yr awdurdodau cynllunio gan gynnwys data iechyd lleol, offer ac adnoddau Iechyd Cyhoeddus Cymru ac UGAEIC, ac gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid.

Ystyried **grwpiau poblogaeth penodol y gallai'r datblygiad gael effaith gadarnhaol neu negyddol arnynt,** nid y boblogaeth gyffredinol yn unig.

Gwneud argymhellion sy'n **benodol, yn gyraeddadwy, ac yn gysylltiedig â pholisïau, amodau neu rwymedigaethau cynllunio**.

Os **bydd ymgeisydd yn comisiynu darparwr allanol i gynnal AEI, dylai sicrhau bod gan y darparwr y cymwyseddau sy'n ofynnol ar gyfer AEI.** Am ragor o wybodaeth am gymhwysedd AEI, cyfeiriwch at y fframwaith gwybodaeth a sgiliau yng nghanllawiau AEI Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r Institute of Sustainability and Environmental Professionals Sustainability Skills Map.

# 11 Adolygu AEIau a gyflwynwyd

## Wrth adolygu adroddiadau AEIau, dylai awdurdodau cynllunio wirio'r canlynol:

- ✓ A gafodd pob **penderfynydd iechyd perthnasol** (amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd) ei ystyried. Dylid cyfeirio at yr adnodd Poblogaeth a Phenderfynyddion Ehangach Iechyd a Llesiant yng **Nghanllawiau AEI UGAEIC** am restr o benderfynyddion iechyd a llesiant posibl y gellir eu hystyried mewn AEI.
- ✓ Mae **dosbarthiad effeithiau** (h.y. sut mae effeithiau'n lledaenu ar draws poblogaeth) wedi'i asesu. Cyfeiriwch at yr adnodd Poblogaeth a Phenderfynyddion Ehangach Iechyd a Llesiant yng **Nghanllawiau AEI UGAEIC**, am restr o grwpiau poblogaeth agored i niwed posibl y gellid eu hadnabod yn yr ardal leol fel rhai yr effeithir arnynt gan ddatblygiad.
- ✓ Mae tystiolaeth o **gyfranogiad rhanddeiliaid**.
- ✓ Mae'r argymhellion yn **ymarferol ac yn gyraeddadwy ac maent wedi llywio dyluniad y datblygiad**.
- ✓ Mae'r AEI wedi'i gysylltu'n glir â'r **broses benderfyniadau a gynhelir o fewn y system gynllunio**.

Mae **Fframwaith Adolygu Sicrwydd Ansawdd** ar gyfer Asesiadau Effaith ar Iechyd yn adnodd gwerthuso hanfodol ar gyfer AEI a ddatblygwyd gan UGAEIC. Nod **y ddogfen** hon yw rhoi canllawiau i amrywiaeth o gynulleidfaoedd ar gynnal adolygiad sicrhau ansawdd AEIau, a gallai gefnogi awdurdodau cynllunio i adolygu AEIau ar gyfer datblygiad. Mae UGAEIC yn cynnig **cwrs e-ddysgu** ar sicrhau ansawdd ac adolygu AEIau.

Mae **canllaw** defnyddiol ar adolygu adroddiadau AEI ar gyfer datblygiadau ar gael gan Ben Cave Associates[4].

[4] Ben Cave Associates, 2009, A Review Package for Health Impact Assessment Reports of Development Projects

# 12 Adnoddau AEI Defnyddiol

- **Uned Cymorth AEI Cymru (UGAIEC), Iechyd Cyhoeddus Cymru**

  Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi llunio nifer o adnoddau i gefnogi ymarferwyr i gwblhau AEIau ac i gefnogi’r broses o gasglu tystiolaeth o’r cysylltiadau rhwng cynllunio ac iechyd:

  – Asesiad o’r Effaith ar Iechyd: **pob math o ganllawiau**, templedi ac adnoddau sy’n cyflwyno’r broses AEI ac sy’n cael eu hategu gan amrywiaeth o dempledi ac adnoddau.

  – **Fframwaith Adolygu** Sicrwydd Ansawdd ar gyfer Asesiadau o’r Effaith ar Iechyd, adnodd gwerthuso hanfodol ar gyfer AEI. Nod y ddogfen hon yw rhoi canllawiau i amrywiaeth o gynulleidfaoedd ar gynnal adolygiad sicrhau ansawdd AEIau. Mae e-ddysgu hefyd ar gael ar sicrhau ansawdd ac adolygu AEIau.

  – **Pecyn cymorth** i gefnogi ymgorffori AEI mewn Cynlluniau Datblygu Lleol

  – Canllawiau **Cynllunio Lleoedd Iach** i gefnogi’r rhai sy’n gweithio ar draws awdurdodau lleol trefol a gwledig yng Nghymru i ystyried, cynnwys a hyrwyddo iechyd a llesiant drwy Gynlluniau Datblygu Lleol (CDLlau) a’r system gynllunio. Mae’n darparu tystiolaeth ac arweiniad ynghylch sut gellir cyflawni hyn a pham mae’r cysylltiadau rhwng cynllunio ac iechyd mor bwysig.

  – Mae **Cynllunio a Galluogi Amgylcheddau Iach** yn adnodd a thempled Canllaw Cynllunio Atodol ynghylch creu amgylcheddau iach, gan gynnwys amgylcheddau pwysau iach.

  – Mae **Creu lleoedd a mannau iachach** yn dangos sut gall y cyfleoedd iechyd a llesiant a gynigir gan yr amgylchedd naturiol ac adeiledig, fel seilwaith cerdded a beicio, tyfu bwyd a mynediad at natur, gyfrannu at Gymru gynaliadwy a ffyniannus ar gyfer y genhedlaeth bresennol a chenedlaethau’r dyfodol.

- **Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 12, 2024)** ar gyfer cyd-destun polisi.
- Byrddau iechyd lleol ac Asesiadau Anghenion Llesiant ar gyfer data sylfaenol a blaenoriaethau lleol.
- Public Health England - **HIA in Spatial Planning**
- Cynlluniau Datblygu Lleol, Canllawiau Cynllunio Atodol ac Adroddiadau Monitro Blynyddol Awdurdodau Cynllunio.

# 13 Crynodeb

## Mae awdurdodau cynllunio yn chwarae rhan ganolog wrth ymgorffori iechyd mewn penderfyniadau cynllunio.

Trwy roi cyngor clir i ymgeiswyr ar bwrpas, cwmpas a phroses AEI, gall awdurdodau sicrhau'r canlynol:

- ✓ **Mae iechyd, llesiant a thegwch** yn cael eu hintegreiddio mewn cynigion datblygu yn y camau cynharaf.
- ✓ Mae cymunedau'n elwa ar **amgylcheddau iachach a llai o anghydraddoldebau**.
- ✓ Mae cynigion datblygu yn cyd-fynd ag **amcanion llesiant a chynaliadwyedd** Cymru.





# 14 Dolenni defnyddiol pellach

## Mae’r rhestr ganlynol yn darparu dolenni adnoddau ar gyfer rhagor o wybodaeth.

- GIG Cymru – **https://nwssp.nhs.wales/contact-us/services-we-provide-a-z/registering-with-a-gp-and-other-patient-queries-within-nhs-wales/practices-that-operate-in-your-area/**
- Cyfrifiad 2021 y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) – data nomis: **https://www.nomisweb.co.uk**/
- Iechyd Cyhoeddus Cymru, Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru (UGAEIC). Mae gwefan UGAEIC yn cynnwys mynediad at wybodaeth, adnoddau hyfforddi, enghreifftiau o AEIau a hyfforddiant sy’n gysylltiedig ag AEI: **https://icccgsib.co.uk/whiasu/**. Cyswllt e-bost **UGAEIC.IechydCyhoeddusCymru@wales.nhs.uk**
- Deddf Cynllunio (Cymru) 2015: **https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2015/4/contents**
- Polisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 12, 2021: **https://www.llyw.cymru/polisi-cynllunio-cymru**
- Iechyd Cyhoeddus, 2018, Creu lleoedd a mannau iachach ar gyfer y genhedlaeth bresennol a chenedlaethau’r dyfodol. **https://phwwhocc.co.uk/whiasu/wp-content/uploads/sites/3/2021/06/Creating_healthier_places_and_spaces_for_our_present_and_future_generations.pdf**
- Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru: **https://icc.gig.cymru/tudalen-data/**
- StatsCymru: **https://stats.llyw.cymru/cy-GB**
- Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015: **https://www.llyw.cymru/deddf-llesiant-cenedlaethaur-dyfodol-cymru-2015-yr-hanfodion-html**
- Llywodraeth Cymru, Mai 2025. Rhan 5 Atodiad: Dosbarthiadau Ceisiadau Cynllunio – trothwyon a Meini Prawf. Llawlyfr Rheoli Datblygu. **https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2025-05/section-5-annex-planning-application-classifications.pdf** (Saesneg yn unig)

# 15 Cyfeiriadau


Institute of Sustainability & Environment Professionals (formerly the Institute of Environmental Management and Assessment). "Guide to Determining significance for human health in Environmental Impact Assessment" IEMA, 2022, **(PDF) IEMA Guide: Determining Significance for Human Health in Environmental Impact Assessment**

McCartney, G., Popham, F., McMaster, R., Cumbers, A., 2019. Defining health and health inequalities. Public Health, Special issue on Migration, Ethnicity, Race and Health 172, 22–30. **https://doi.org/10.1016/j.puhe.2019.03.023**

Public Health England. "Health Impact Assessment in Spatial Planning." GOV.UK , 2020, **www.gov.uk/government/publications/health-impact-assessment-in-spatial-planning**

Iechyd Cyhoeddus Cymru. "Dangosfwrdd Rhaglen Mesur Plant - Iechyd Cyhoeddus Cymru." *Iechyd Cyhoeddus Cymru* - , 29 Ebrill 2025, **https://icc.gig.cymru/tudalen-data/dangosfwrdd-rhaglen-mesur-plant/.** Cyrchwyd 12 Mehefin 2026.

Iechyd Cyhoeddus Cymru. "Creu Lleoedd a Mannau Iachach ar gyfer y Genhedlaeth Bresennol a Chenedlaethau'r Dyfodol." *Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru*, 20 Gorffennaf 2021, **https://icccgsib.co.uk/adnoddau/creu-lleoedd-a-gofod-iachach-ar-gyfer-y-genhedlaeth-bresennol-a-chenedlaethaur-dyfodol/**

Iechyd Cyhoeddus Cymru. "Cynllunio Lleoedd Iach: Canllaw i Awdurdodau Lleol yng Nghymru i Ymgorffori Iechyd mewn Polisi Cynllunio Lleol." *Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru*, 19 Tachwedd 2025, **https://icccgsib.co.uk/adnoddau/cynllunio-lleoedd-iach-canllaw-i-awdurdodau-lleol-yng-nghymru-i-ymgorffori-iechyd-mewn-polisi-cynllunio-lleol/**

# 16 Atodiad 1: Templed sgrinio

## Ar gyfer datblygiadau nad ydynt yn bodloni’r sbardun na’r gofyniad polisi ar gyfer Asesiad o’r Effaith ar Iechyd (AEI) llawn, dylid annog ymgeiswyr i gwblhau a chyflwyno asesiad sgrinio ochr yn ochr â’r cais cynllunio.

Mae’r asesiad sgrinio hwn yn golygu bod modd gweld yn fuan a yw’r cynnig yn debygol o gael effeithiau ar iechyd ac mae’n hwyluso camau lliniaru/newidiadau i’r dyluniad a fyddai’n hybu canlyniadau iechyd gwell i gymunedau, waeth beth yw graddfa’r cynigion.

Lle mae datblygiad yn bodloni’r sbardunau a osodwyd gan yr awdurdodau cynllunio i wneud AEI yn ofynnol, y cam sgrinio yw’r cam cyntaf a bydd y polisi a’r canllawiau’n tynnu sylw at y materion allweddol i’w harchwilio’n fanylach yn ystod yr asesiad llawn. Yna bydd y cam cwmpasu yn llywio’r dull manwl i’w gymryd a’r effeithiau i’w hystyried.

Gellir defnyddio’r ffurflen isod fel templed sgrinio.

| **Templed AEI ar gyfer Sgrinio Datblygiad** | |
|---|---|
| **Gwybodaeth am y Prosiect** | |
| Teitl y cynnig | |
| Asesiad sgrinio AEI wedi'i gwblhau gan | |
| Dyddiad yr asesiad sgrinio | |
| **Disgrifiad o'r cynnig** | |
| Rhowch ddisgrifiad byr o'r hyn sy'n cael ei gynnig | |
| Lleoliad y cynnig. Rhowch ddisgrifiad o'r lleoliad a'r cyffiniau yn ogystal â map o'r lleoliad | |
| **Proffil poblogaeth / grwpiau poblogaeth allweddol yr effeithir arnynt gan y cynnig** | |
| Adolygiad a chrynodeb o asesiad o anghenion y boblogaeth leol neu gynllun llesiant er mwyn cael proffil o iechyd a llesiant y boblogaeth leol. Amlinellwch anghenion iechyd allweddol y boblogaeth leol. | |
| A oes unrhyw grwpiau agored i niwed neu dan anfantais o fewn y boblogaeth sy'n cael ei hastudio?<br><br>Cyfeiriwch at adnodd grwpiau poblogaeth UGAEIC | |

| Proffil amgylcheddol | |
|---|---|
| Disgrifiwch ansawdd amgylcheddol cyffredinol yr ardal, e.e. a oes unrhyw ardaloedd rheoli ansawdd aer neu ardaloedd pwysig o ran sŵn yn agos at y datblygiad? Faint o fannau gwyrdd/glas sydd ar gael? | |
| Pa seilwaith cymdeithasol a chymunedol sy'n agos at y datblygiad (o fewn 1km). E.e. ysgolion, llyfrgelloedd, rhwydweithiau teithio llesol, trafnidiaeth gyhoeddus, gwasanaethau gofal sylfaenol, canolfannau meddygol, ac ati) | |
| **Natur y dystiolaeth a ystyriwyd/i'w defnyddio** | |
| Disgrifiwch y dystiolaeth a fydd yn cael ei defnyddio i nodi a dadansoddi effeithiau ar benderfynyddion iechyd (e.e. data sylfaenol iechyd a llesiant, demograffeg, dangosyddion economaidd-gymdeithasol, darpariaeth gwasanaethau gofal iechyd a data amgylcheddol) | |

| Asesiad sgrinio | Perthnasol? [Ydy/Nac ydy] Effaith yn ystod y gwaith adeiladu neu ar ôl ei gwblhau? | A yw'r effaith yn debygol o fod yn: Cadarnhaol/ Negyddol/ Niwtral/ Ansicr | A fydd yn effeithio'n benodol ar unrhyw grwpiau agored i niwed? | Disgrifiad / Cyfiawnhad |
|---|---|---|---|---|
| **1. Grwpiau poblogaeth** | | | | |
| **A yw'r cynnig yn debygol o effeithio ar grwpiau penodol o'r boblogaeth? Os felly, pwy a sut?**<br>Cyfeiriwch at restr wirio grwpiau poblogaeth yng nghanllaw AEI UGAEIC ac asesiadau a phroffiliau anghenion poblogaeth | | | | |
| **2. Ymddygiadau/ffordd o fyw iach** | | | | |
| **A yw'r cynnig yn debygol o ddylanwadu ar lefel gweithgarwch corfforol poblogaeth y datblygiad a'r gymuned gyfagos?** | | | | |
| **A yw'r cynnig yn caniatáu mynediad at opsiynau bwyd iach?** | | | | |
| **A yw'r cynnig yn debygol o gynyddu ymddygiad sy'n golygu cymryd risgiau, e.e. gamblo, ysmygu?** | | | | |

| Asesiad sgrinio | Perthnasol? [Ydy/Nac ydy] Effaith yn ystod y gwaith adeiladu neu ar ôl ei gwblhau? | A yw'r effaith yn debygol o fod yn: Cadarnhaol/ Negyddol/ Niwtral/ Ansicr | A fydd yn effeithio'n benodol ar unrhyw grwpiau agored i niwed? | Disgrifiad / Cyfiawnhad |
|---|---|---|---|---|
| **3. Amgylchedd cymdeithasol a chymunedol** | | | | |
| A yw'r cynnig yn sensitif i hunaniaeth a diwylliant cymunedol? | | | | |
| A yw'r cynnig yn ystyried dylunio cynhwysol? | | | | |
| A yw'r cynnig yn cynnwys dyluniadau i greu mannau cymunedol sy'n ddeniadol ac a fydd yn galluogi pobl i gyfarfod yn ddiogel? | | | | |
| A ymgysylltwyd â'r gymuned leol/a oes cynlluniau ar gyfer ymgysylltu â hi? | | | | |

| Asesiad sgrinio | Perthnasol? [Ydy/Nac ydy] Effaith yn ystod y gwaith adeiladu neu ar ôl ei gwblhau? | A yw'r effaith yn debygol o fod yn: Cadarnhaol/ Negyddol/ Niwtral/ Ansicr | A fydd yn effeithio'n benodol ar unrhyw grwpiau agored i niwed? | Disgrifiad / Cyfiawnhad |
|---|---|---|---|---|
| **4. Llesiant meddyliol** | | | | |
| A yw'r cynnig yn cynnwys elfennau sy'n helpu i 'ddylunio i atal troseddu' ac yn helpu pobl i deimlo'n ddiogel? | | | | |
| A fydd y cynnig yn effeithio ar lesiant meddyliol aelodau presennol y gymuned neu aelodau newydd o'r gymuned? | | | | |
| **5. Amgylchedd economaidd** | | | | |
| A fydd y cynnig yn effeithio ar gyfleoedd cyflogaeth? | | | | |
| A fydd y cynnig yn effeithio ar fynediad at addysg a hyfforddiant? | | | | |

| Asesiad sgrinio | Perthnasol? [Ydy/Nac ydy] Effaith yn ystod y gwaith adeiladu neu ar ôl ei gwblhau? | A yw'r effaith yn debygol o fod yn: Cadarnhaol/ Negyddol/ Niwtral/ Ansicr | A fydd yn effeithio'n benodol ar unrhyw grwpiau agored i niwed? | Disgrifiad / Cyfiawnhad |
|---|---|---|---|---|
| **6. Amodau byw ac amgylcheddol** | | | | |
| A yw'r cynnig yn cadw ac yn gwella mannau agored a naturiol presennol? A yw'n darparu ardaloedd gwyrdd newydd? | | | | |
| A yw'r cynnig yn mynd i'r afael ag anghenion tai'r gymuned leol? | | | | |
| A yw'r cynnig yn cynnwys amrywiaeth o fathau o dai? | | | | |
| A yw'r cynnig yn debygol o effeithio ar ansawdd yr aer? | | | | |
| A yw'r cynnig yn darparu mynediad at wahanol fathau o fannau chwarae a hamdden i blant a phobl ifanc? A yw'n ystyried anghenion gwahanol grwpiau oedran? | | | | |

| Asesiad sgrinio | Perthnasol? [Ydy/Nac ydy] Effaith yn ystod y gwaith adeiladu neu ar ôl ei gwblhau? | A yw'r effaith yn debygol o fod yn: Cadarnhaol/ Negyddol/ Niwtral/ Ansicr | A fydd yn effeithio'n benodol ar unrhyw grwpiau agored i niwed? | Disgrifiad / Cyfiawnhad |
|---|---|---|---|---|
| A yw'r cynnig yn debygol o effeithio ar ansawdd neu argaeledd dŵr? | | | | |
| A oes unrhyw broblemau yn ymwneud ag ansawdd y tir y mae'r cynnig wedi'i leoli arno? E.e. a yw'r safle wedi'i halogi? | | | | |
| A yw'r cynnig yn debyg o achosi effeithiau sŵn? | | | | |
| A yw'r cynnig yn darparu mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus a chyfleoedd teithio llesol i alluogi cysylltiad ac integreiddio â chyfleusterau presennol? | | | | |
| A yw mesurau rheoli traffig a gostegu traffig wedi'u cynnwys yn y cynigion? | | | | |

| Asesiad sgrinio | Perthnasol? [Ydy/Nac ydy] Effaith yn ystod y gwaith adeiladu neu ar ôl ei gwblhau? | A yw’r effaith yn debygol o fod yn: Cadarnhaol/ Negyddol/ Niwtral/ Ansicr | A fydd yn effeithio’n benodol ar unrhyw grwpiau agored i niwed? | Disgrifiad / Cyfiawnhad |
|---|---|---|---|---|
| **7. Mynediad at wasanaethau** | | | | |
| A yw’r cynigion yn debygol o effeithio ar fynediad at wasanaethau gofal iechyd? E.e. drwy gynyddu’r galw am wasanaethau o’r fath, neu newid mynediad ffisegol iddynt? | | | | |
| A yw seilwaith cymdeithasol fel gwasanaethau gofal iechyd, llyfrgelloedd, siopau, gwasanaethau ariannol o fewn cyrraedd hawdd i’r cynigion (h.y. o fewn pellter cerdded neu’n hygyrch ar drafnidiaeth gyhoeddus)? | | | | |
| **8. Amodau macro-economaidd ac amgylcheddol** | | | | |
| A yw’r cynigion yn cynnwys gwydnwch hinsawdd o fewn y dyluniad, e.e. cysgodi naturiol, agwedd, lloches, awyru, draenio, ac ati? | | | | |
| A yw’r cynnig yn cynnwys ystyriaeth o’r effaith ar fioamrywiaeth? | | | | |
| A yw’r cynigion yn effeithlon iawn o ran ynni? | | | | |

# 17 Atodiad 2: Templed Cynllun Cyfranogiad Rhanddeiliaid ar gyfer AEI

## Mae’r tablau isod yn darparu templed cyfranogiad rhanddeiliaid sylfaenol y gellir ei addasu ar gyfer prosiect.

Mae wedi’i strwythuro o amgylch camau’r AEI gan ddarparu awgrymiadau ynghylch pwy allai gymryd rhan, dulliau ymgysylltu priodol, amserlenni sydd eu hangen a chyfrifoldebau. Ym mhob cam, dylai’r cynllun cyfranogiad rhanddeiliaid fod yn gymesur â graddfa a phwysigrwydd y prosiect sy’n cael ei asesu, bod yn gynhwysol, yn dryloyw ac yn hygyrch. Yn y cyd-destun hwn, mae hygyrch yn golygu darparu gwybodaeth hawdd ei darllen a chyfieithiadau a darparu treuliau priodol i gyfranogwyr.

### Tabl 1: Sgrinio

| **Sgrinio:** Cytuno a yw AEI yn briodol/angenrheidiol a diffinio’r ffocws eang. | | |
|---|---|---|
| **Rhanddeiliaid Perthnasol** | • Y sawl sy’n gwneud penderfyniadau (awdurdod lleol, cynllunwyr, bwrdd iechyd)<br>• Cynrychiolwyr cymunedol allweddol (e.e. cymdeithasau tenantiaid, grwpiau cleifion)<br>• Arbenigwyr iechyd y cyhoedd | **Nodiadau:** |
| **Dulliau cyfranogiad** | • Cyfarfod/gweithdy byr i randdeiliaid<br>• Anfon y cynnig drwy e-bost gyda’r opsiwn o roi adborth | **Nodiadau:** |
| **Amserlen ddangosol** | 1-2 wythnos | **Nodiadau:** |
| **Cyfrifoldeb** | Arweinydd AEI + grŵp llywio os caiff ei ddefnyddio | **Nodiadau:** |

## Tabl 2: Cwmpasu

| **Cwmpasu:** Diffinio effeithiau i’w hasesu, y poblogaethau yr effeithir arnynt, y dulliau asesu a’r strategaeth gyfranogi i’w dilyn. | | |
|---|---|---|
| **Rhanddeiliaid Perthnasol** | • Cynrychiolwyr cymunedol (gan gynnwys grwpiau agored i niwed)<br>• Darparwyr gwasanaethau (iechyd, tai, addysg, trafnidiaeth, ac ati)<br>• Grwpiau eiriolaeth/gwirfoddol | **Nodiadau:** |
| **Dulliau cyfranogiad** | • Ymarfer mapio rhanddeiliaid<br>• Trafodaethau cyfranogol a chwblhau’r **templed** cwmpasu | **Nodiadau:** |
| **Amserlen ddangosol** | 2–3 wythnos | **Nodiadau:** |
| **Cyfrifoldeb** | Arweinydd AEI + grŵp llywio os caiff ei ddefnyddio | **Nodiadau:** |

## Tabl 3: Asesu

| **Asesu:** Casglu a dehongli tystiolaeth, deall dosbarthiad effeithiau. | | |
|---|---|---|
| **Rhanddeiliaid Perthnasol** | • Preswylwyr/aelodau o’r gymuned (gan gynnwys lleisiau na chlywir yn aml)<br>• Gweithwyr proffesiynol/arbenigwyr (cynllunio, iechyd y cyhoedd, amgylchedd, economi) | **Nodiadau:** |
| **Dulliau cyfranogiad** | • Arolygon neu gyfweliadau cymunedol<br>• Mapio cyfranogol (h.y. defnyddio gwybodaeth, profiad a blaenoriaethau’r cyfranogwyr i nodi grwpiau agored i niwed, asedau iechyd, risgiau, rhwystrau rhag iechyd, ac ati)<br>• Gweithdai aml-randdeiliaid i adolygu tystiolaeth<br>• Paneli arbenigol ar gyfer pynciau technegol fel ansawdd aer, modelu trafnidiaeth. | **Nodiadau:** |
| **Amserlen ddangosol** | 4-6 wythnos (yn dibynnu ar raddfa a rhaglen y prosiect) | **Nodiadau:** |
| **Cyfrifoldeb** | Arweinydd AEI + grŵp llywio os caiff ei ddefnyddio, gyda chefnogaeth yr awdurdod lleol | **Nodiadau:** |

## Tabl 4: Adrodd ac argymhellion

| **Adrodd ac argymhellion:** Drafftio a dilysu asesiad ac argymhellion. | | |
|---|---|---|
| **Rhanddeiliaid Perthnasol** | • Cynrychiolwyr cymunedol<br>• Grwpiau eiriolaeth<br>• Y sawl sy'n gwneud penderfyniadau<br>• Darparwyr gwasanaeth | **Nodiadau:** |
| **Dulliau cyfranogiad** | • Dosbarthu adroddiad drafft i gael sylwadau<br>• Cyfarfod dilysu gyda rhanddeiliaid yn cymryd rhan yn y camau cynnar | **Nodiadau:** |
| **Amserlen ddangosol** | 2–3 wythnos | **Nodiadau:** |
| **Cyfrifoldeb** | Arweinydd AEI + grŵp llywio os caiff ei ddefnyddio, awdurdod lleol[5] | **Nodiadau:** |

## Tabl 5: Monitro a gwerthuso

| **Monitro a gwerthuso: Tracio faint o argymhellion a ddefnyddir a'r effeithiau dros amser *(er bod hwn yn gam dilys a phwysig, yn enwedig ar gyfer datblygiadau ar raddfa fawr, cydnabyddir efallai na fydd adnoddau a chyllidebau'n caniatáu monitro parhaus). Mae'n annhebygol y byddai contractau AEI yn ymestyn y tu hwnt i gyflwyno'r adroddiad AEI terfynol/gwerthuso'r AEI)** | | |
|---|---|---|
| **Rhanddeiliaid Perthnasol** | • Cynrychiolwyr cymunedol<br>• Dadansoddwyr awdurdodau lleol/ iechyd y cyhoedd<br>• Darparwyr gwasanaeth | **Nodiadau:** |
| **Dulliau cyfranogiad** | • Fframwaith monitro wedi'i ddatblygu ar y cyd â rhanddeiliaid<br>• Sesiynau adborth cymunedol ar adegau rheolaidd<br>• Cyfarfodydd adolygu blynyddol | **Nodiadau:** |
| **Amserlen ddangosol** | Parhaus (bob 6-12 mis) | **Nodiadau:** |
| **Cyfrifoldeb** | Ar y cam cyntaf, arweinydd yr AEI, yna arweinydd yr awdurdod lleol/iechyd y cyhoedd gyda phartneriaid cymunedol | **Nodiadau:** |

[5] Ni ddylai Rhanddeiliaid Awdurdodau Lleol gynnwys Cynllunwyr Awdurdodau Lleol oherwydd eu bod yn gyfrifol am asesu'r cyflwyniad cynllunio ac ni ddylid eu rhoi mewn sefyllfa o wrthdaro buddiannau gwirioneddol neu ganfyddedig.